

Asbestos mewn Tai

- **Beth ydyw**
- **Ble gellir ei ddarganfod yn eich cartref**
- **Sut i osgoi perygl i chi a'ch teulu**

TAFLEN WYBODAETH I DENANTIAID

BETH YW ASBESTOS?

Asbestos yw'r enw a roddir ar grŵp o fwynau fffrog sy'n tyfu yn naturiol. Mae Asbestos yn gryf iawn, yn hyblyg ac yn sefydlog ac mae hyn wedi arwain ato'n cael ei ddefnyddio mewn ystod eang o ddeunyddiau a chynhyrchion adeiladau rhwng yr 1930au a chanol yr 1980au, ac yn fwy helaeth yn yr 1960au a'r 1970au. Os cafodd eich cartref ei adeiladu neu ei ailwampio yn ystod y cyfnod hwn, gall gynnwys ychydig o ddeunydd asbestos.

OES YNA BERYGL IECHYD?

“Dyw deunyddiau sy'n cynnwys asbestos ddim yn beryglus os ydynt mewn cyflwr da ac nad ydynt yn cael eu haflonyddu.”

Pan mae deunyddiau asbestos yn heneiddio neu'n cael eu difrodi, drwy gael eu drilio, eu llifo, eu sgwrio neu eu sandio, gallant ryddhau ffibrau i'r awyr.

BLE MAE ASBESTOS YN DEBYGOL O GAEL EI DDARGANFOD?

Dyma ychydig o esiamplau:

- Paneli baddon
- Paneli waliau
- Leinin o dan grisiau
- Gorchuddion sment rhychog sy'n cael eu defnyddio'n aml mewn siediau a garejis
- Caenau addurnol gweadog fel 'artex'
- Soffitiau
- Peipiau pridd
- Casinau a blychau i beipiau pridd a phibwaith
- Teiliau llawr plastig
- Cynhyrchion bitwmen a phwti
- Cynhyrchion dŵr glaw fel cwteri a pheipiau
- Sestonau toiledau

BETH MAE CYNGOR CAERFFILI YN EI WNEUD YNGHYLCH ASBESTOS?

Mae gan y Cyngor Gynllun Rheoli Asbestos sy'n nodi sut ydym yn nodi a rheoli asbestos yn eiddo'r cyngor. Bydd y Cyngor yn gwneud arolwg asbestos o rai o'i dai a'i fflatiau, ac yn cynnwys pob mynediad a choridor sy'n cael eu rhannu. Bydd hyn yn nodi lleoliadau deunyddiau y tybir eu bod yn cynnwys asbestos. Mae'r Cyngor hefyd yn cynnal arolygon asbestos i bob un o'i eiddo cyn unrhyw waith ailwampio p'un ai eiddo di-rym ydyw neu rhan o'r Rhaglen SATC. Bydd hwn yn adnabod lleoliad y deunyddiau lle tybiwyd y mae asbestos yn bodoli. Bydd yr holl ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos sydd mewn cyflwr da yn aros ble maent. Os yw'r deunydd wedi'i ddifrodi neu yn beryglus iawn oherwydd ei leoliad bydd y Cyngor yn gweithredu mewn modd addas er mwyn cael gwared arno.

BETH YW FY NGHYFRIFOLDEBAU FEL TENANT?

RHAID i chi gael caniatâd y Cyngor cyn i chi wneud **unrhyw** waith yn eich cartref - bydd hyn yn cynnwys unrhyw addurno os oes artex yn gysylltiedig. Os felly, dylech gael cyngor pellach. **Cofiwch** nad yw addasiadau'n cael eu caniatáu o dan gytundeb eich tenantiaeth heb ganiatâd yn ysgrifenedig o flaen llaw; felly gwnewch yn siŵr eich bod yn cael caniatâd gennym cyn gwneud unrhyw waith ar eich cartref. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r Cyngor i sicrhau fod deunyddiau a allai gynnwys asbestos yn cael eu nodi yn gynnar. Darperir manylion cyswllt ar gyfer eich Swyddfeydd Tai Lleol ar ddiwedd y daflen hon.

SUT FYDD FY YMHOLIAD YN CAEL EI DRIN?

Pan fyddwch yn gwneud ymholiad mi fydd yn cael ei atgyfeirio at staff cymwysedig a fydd yna'n ystyried eich cais ac yn sicrhau fod y rheolyddion cywir yn cael eu gosod er mwyn rhwystro datguddiad i chi, eich teulu a'r person sy'n gwneud y gwaith (os nid chi sy'n ei wneud). Os ydych yn gwneud unrhyw waith neu'n rhoi caniatâd i eraill i wneud gwaith heb ganiatâd ysgrifenedig, chi fydd yn gyfrifol am y costau cysylltiedig i gyd.

BETH OS YDW I'N MEDDWL BOD ASBESTOS YN FY NGHARTREF?

Os oes gennych unrhyw amheuaeth bod yna ddeunydd sy'n cynnwys asbestos neu os ydych yn meddwl fod eich cartref yn cynnwys deunyddiau ag asbestos sydd wedi ei ddifrodi, cysylltwch â'ch Swyddfa Tai Leol. Mae manylion wedi cael eu darparu ar ddiwedd y llawlyfr hwn.

Peidiwch â cheisio gwneud hyn eich hun!

BLE ALLAI GAEL MWY O WYBODAETH?

Gallwch gael mwy o wybodaeth drwy ymweld ag un o'r gwefannau canlynol:

- www.hse.gov.uk/asbestos
- www.aic.org.uk
- www.direct.gov.uk/cy/index.htm

neu cysylltwch â'ch Swyddfa Tai Leol.

Cyfeiriwch at yr adran 'Cysylltu â Ni' ar ddiwedd y llawlyfr hwn.